

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru: Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai Mawrth 2022

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymchwiliad i ryddhau cleifion o'r ysbyty ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai. Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau mawr ar bob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r pwysau hwn a'r problemau capasiti hirdymor, sy'n deillio'n rhannol o flynyddoedd lawer o fesurau cyni Llywodraeth y DU, wedi arwain at broblemau cyson wrth ryddhau cleifion o ysbytai a'r llif cleifion. Nid yw'r problemau hyn yn unigryw i Gymru, ac mae rhannau eraill o'r DU wedi wynebu'r un problemau.

Mae pandemig COVID-19 wedi ail-bwysleisio'r angen am brosesau effeithiol wrth ryddhau cleifion o ysbytai a llif cleifion drwy ysbytai, ond mae wedi rhoi straen enfawr ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol am lawer o resymau, yn enwedig wrth roi'r gweithlu llai ac aiddosbarthu/dileu gwasanaethau a phecynnau gofal er mwyn blaenoriaethu a bodloni'r galw.

Nid yw'r llif cleifion drwy ysbytai yn ymwneud â'r adeg rhyddhau yn unig, ac mae sawl agwedd ar ddarpariaeth weithredol hwylus a phrofiad a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion. Mae gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio effeithiol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd â dull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol er mwyn trosglwyddo gofal yn brydlon a sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer unigolion. Rydym yn canolbwyntio ar ymateb system gyfan.

2. Cefndir

Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty

Ar ddechrau'r pandemig, cyflwynwyd canllawiau newydd ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty: <https://llyw.cymru/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-or-ysbyty-covid-19>.

Mae'n seiliedig ar yr ethos Gartref yn Gyntaf a'r llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA).

Mae'r dull "gartref yn gyntaf" a D2RA yn seiliedig ar dystiolaeth o ganlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n trosglwyddo cyn gynted â phosibl i'w preswylfa arferol neu i leoliad gofal addas arall er mwyn adsefydlu neu ail-alluogi cyn asesu eu gofynion ar gyfer gofal mwy hirdymor. Yn gynnar yn ystod pandemig COVID-19, cyflwynwyd canllawiau gennym sy'n ymwreiddio'r dull hwn, ac mae Uned Gyflawni'r GIG yn gweithio ar lefel genedlaethol i helpu i'w rhoi ar waith.

Rydym wedi parhau i adolygu'r canllawiau ar ryddhau cleifion yn unol â'r dystiolaeth wyddonol sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft mewn perthynas â gofynion profi ac ynysu wrth i gleifion drosglwyddo o ysbytai i gartrefi gofal a lleoliadau gofal eraill.

Rydym wedi parhau i ohirio'r Canllawiau Dewis o Lety (sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion o ysbytai), gan gydnabod y pwysau ychwanegol y gall aros am gartrefi gofal penodol ei roi ar fyrddau iechyd ar adeg mor anodd. Yn ymarferol, gall pobl ddewis cartref gofal o hyd, ond mae'n bosibl y bydd angen iddynt symud i leoliad dros dro yn gyntaf. Nodir hyn yn y canllawiau ar ryddhau cleifion o ysbytai. Byddwn yn ceisio datblygu Canllawiau Dewis o Lety newydd wrth i ni barhau i adfer yn dilyn y pandemig.

Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Mae'r dull gweithredu Gartref yn Gyntaf a D2RA yn cyd-fynd â'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae'r nodau hyn yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, annibynnol a'r trydydd sector er mwyn darparu'r gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

O'r Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae nodau pump a chwech yn cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol ar ryddhau cleifion o ysbytai, ac yn ceisio eu cyflawni.

Bydd £25 miliwn o gyllid cenedlaethol cylchol ychwanegol yn helpu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflwyno'r 'chwe nod' ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. Dyma'r nodau:

- Nod 1 - Cydgysylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer pobl sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng
- Nod 2 - Cyfeirio pobl i'r lle iawn, y tro cyntaf
- Nod 3 - Dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i'r ysbyty
- Nod 4 - Ymateb cyflym os oes argyfwng corfforol neu argyfwng iechyd meddwl
- Nod 5 - Darparu'r gofal gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty
- Nod 6 - Dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty

Fel rhan o'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, gan ganolbwyntio ar nodau pump a chwech yn benodol, rydym wedi comisiynu gwaith i ddatblygu Rhaglen Gofal Gorau Posibl mewn Ysbytai a Gofal Gartref yn Gyntaf. Y nod yw sicrhau'r arferion gorau wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a chyflwyno egwyddorion Gartref yn Gyntaf er mwyn rheoli pobl yn well yn y gymuned, rhyddhau capasiti ysbytai a lleihau'r perygl o dderbyn cleifion i ysbytai.

Ochr yn ochr â'r cymorth uniongyrchol hwn ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae'r ymgyrch gyfathrebu genedlaethol 'Helpwch ni i'ch helpu chi' yn ceisio cynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau yn y lle gorau drwy ystyried sut a phryd y maent yn derbyn gofal. Mae sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y gwasanaeth iawn y tro cyntaf yn allweddol i wella canlyniadau, ac mae hyn yn cynnwys pwyslais ar ddewisiadau amgen i dderbyn cleifion i ysbytai lle bo hynny'n glinigol ddiogel. Mae dewisiadau amgen i fynd i'r ysbyty yn fanteisiol i unigolion ac i'r system iechyd trwy leihau'r pwysau ar y system, ond mae'n gofyn am fynediad at ofal cymdeithasol a/neu gymorth gan y trydydd sector i rai pobl hefyd.

Modelu a Monitro

Yn ogystal, mae yna Grŵp Capasiti Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Modelu a Monitro misol - menter ar y cyd, dan arweiniad Uned Gyflawni GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Mae'r grŵp Modelu a Monitro'n datblygu'r gwaith casglu gwybodaeth ar y cyd fel rhan o'r ymateb cenedlaethol i COVID-19, ac mae'n ymgymryd â'r canlynol:

1. Modelu system gyfan o'r capasiti iechyd a gofal cymdeithasol¹ sydd ei angen i ddiwallu anghenion:
 - Pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty ar ôl cael eu heintio â COVID-19, ar Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA);
 - Pobl nad ydynt wedi mynd i'r ysbyty ar ôl cael eu heintio â COVID-19 ac y bydd angen cymorth arnynt yn eu cymuned er mwyn gwella o'r salwch neu o effeithiau gwarchod/hunanyngysu;
 - Pobl y gallai ymchwydd posibl mewn achosion COVID-19 effeithio arnynt yn y dyfodol;
 - Mathau eraill o bwysau ar y system (e.e. y gaeaf).
2. Monitro'r ymatebion i'r gofynion capasiti a nodwyd a gwneud addasiadau ar sail y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. I wneud hyn, mae'r grŵp yn defnyddio gwybodaeth a ffynonellau data gan gynnwys:
 - Setiau data iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol;
 - Data ar ryddhau cleifion a sefydlwyd i gefnogi Trefniadau Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru);
 - Canfyddiadau'r Ffrwd Waith Adsefydlu genedlaethol;
 - Archwiliad ac adroddiadau a gomisiynwyd o ffynonellau a ffrydiau gwaith cenedlaethol eraill.

3. Graddfa'r sefyllfa

Mae canfyddiadau o'r Grŵp Capasiti Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Modelu a Monitro diweddaraf yn awgrymu'r canlynol:

- Mae pwysau parhaus ar wasanaethau gofal canolraddol a gofal cymdeithasol, y disgwylir i hynny barhau i gynyddu dros y misoedd nesaf.
- Mae diffyg capasiti mewn gwasanaethau ail-alluogi'n arwain at oedi sylweddol wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.
- Mae rhywfaint o'r oedi hwn yn cyfrannu at bwysau mawr parhaus ar ofal cartref.
- Mae data ar oedi wrth ryddhau cleifion yn parhau i ddangos dros 1000 o achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty ac o lwybrau D2RA i'r cam gofal nesaf.
- Mae pryderon yn parhau ynglŷn â defnyddio lleoliadau dros dro, heb fewnbwn therapiwtig, i fynd i'r afael â her uniongyrchol a chritigol llif cleifion drwy ysbytai.

Nod 6: Bydd ffrwd waith Gartref yn Gyntaf yn cydlynu gwaith i gwmpasu sut mae lleoliadau dros dro yn cael eu diffinio, eu defnyddio a'u hariannu ledled Cymru, gyda'r

¹At ddibenion y Ffrwd Waith hon, defnyddir y term 'system gyfan' yn y cyd-destun a geir, er enghraifft, ar dudalen 10 'Cymru Iachach' <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>. 'Un drefn system gyfan lle caiff gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan wahanol ddarparwyr eu cydlynu'n ddi-dor ar gyfer ac o amgylch yr unigolyn.'

nod o ddatblygu fframwaith i gefnogi a monitro lleoliadau dros dro yn ddiogel yn unol ag egwyddorion D2RA.

Data ar oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty

Ar ddechrau pandemig COVID-19, penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio gofynion adrodd ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ynghyd â llawer o setiau data eraill, er mwyn caniatáu i bartneriaid ganolbwyntio ar yr ymateb brys. Cyflwynwyd canllawiau newydd ar ryddhau cleifion, gan gynnwys y dull D2RA, er mwyn gwella'r llif cleifion a chefnogi canlyniadau gwell. Rydym wedi bod yn gweithio gydag Uned Gyflawni'r GIG i gasglu data wythnosol ar oedi wrth ryddhau cleifion fel gwybodaeth reoli i gefnogi'r trefniadau hyn. Rhennir y data hwn gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gynllunio gwasanaethau'n effeithiol, a chyhoeddir crynodeb o'r data bob mis. Rydym yn gweithio tuag at broses fwy ffurfiol o gasglu a chyhoeddi data yn y dyfodol, yn unol â'r rhaglen waith i gyflawni Nod 6 o'r chwe nod gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Y ffigurau diweddaraf ar gyfer oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty (cyhoeddwyd 17 Chwefror 2022)

Dyddiad	Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i lwybrau adfer (D2RA)	Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o lwybrau adfer (D2RA) ac ymlaen i ofal mwy hirdymor	Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i ofal mwy hirdymor, gan osgoi llwybrau adfer (D2RA)	Cyfanswm
31/12/2021	399	510	172	1,081

Mae gwybodaeth reoli ddiweddar yn awgrymu bod nifer tebyg o achosion o oedi wedi bod ers diwedd mis Rhagfyr.

Categoriâu oedi

1. Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i lwybrau adfer (D2RA)

Byddai hyn yn cynnwys pobl mewn gwely ysbyty, sy'n barod yn glinigol i gael eu rhyddhau ac yn aros i gael eu trosglwyddo i leoliad arall mwy priodol am gyfnod o adsefydlu / ail-alluogi, cyn asesu eu gofal mwy hirdymor.

2. Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o lwybrau adfer (D2RA) ac ymlaen i ofal mwy hirdymor

Byddai hyn yn cynnwys pobl sydd wedi cwblhau cyfnod o adsefydlu / ail-alluogi ac sydd wedi cael asesiad o'u hanghenion gofal mwy hirdymor. Gallai hyn gynnwys oedi wrth drosglwyddo unigolyn o'i gartref ei hun, o ysbyty cymunedol neu o leoliadau cam-i-lawr eraill. Byddai'r rhan fwyaf o'r achosion hyn yn aros am becyn gofal neu leoliad cartref gofal.

3. Pobl sy'n aros i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i ofal mwy hirdymor, gan osgoi llwybrau adfer (D2RA)

Byddai hyn yn cynnwys pobl sy'n aros mewn gwely ysbyty i gael eu trosglwyddo i ofal mwy hirdymor, pecynnau gofal cartref neu leoliadau mewn cartref gofal yn bennaf. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai'r broses o ryddhau cleifion

hepgor y llwybrau adfer. Er enghraifft, mewn achos o ofal diwedd oes neu os oes gan yr unigolyn anghenion cymhleth hirdymor ar hyn o bryd a bod angen ail-ddechrau pecyn gofal neu leoliad.

Rhesymau am oedi wrth drosglwyddo cleifion o'r ysbyty

Mae nifer o resymau am yr oedi, a materion cyd-ddibynnol, gan gynnwys:

- digonolrwydd gwasanaethau ataliol
- cynllunio i ryddhau cleifion adeg eu derbyn
- rhoi D2RA ar waith yn effeithiol, er mwyn helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl a lleihau anghenion gofal mwy hirdymor
- prosesau i helpu i ryddhau cleifion yn amserol, megis meddyginiaeth a chludiant
- sicrhau bod cymorth ar gael ar ôl rhyddhau cleifion, gan gynnwys adsefydlu, ail-alluogi a gofal cymdeithasol
- argaeledd pecynnau gofal addas neu leoliadau cartref gofal sydd â lle, cyfarpar a staff addas i ddiwallu anghenion pobl, er enghraifft, nid yw rhai lleoedd gwag mewn cartrefi gofal yn addas i ddiwallu anghenion penodol unigolyn o reidrwydd, e.e. cartrefi nyrsio ar gyfer yr Henoed Eiddil eu Meddwl
- Pwysau COVID-19 fel profi, ynysu, cartrefi gofal yn cau oherwydd COVID-19, problemau staffio oherwydd bod staff wedi'u heintio neu'n ynysu

4. Effeithiau'r oedi (ar unigolion a gwasanaethau)

Ysgrifennodd Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru at Jeremy Griffiths, Cyfarwyddwr Uned Gyflawni'r GIG, ar 20 Ionawr mewn perthynas â heriau sylweddol yn y system gofal heb ei drefnu, a oedd yn deillio'n rhannol o gynnydd mewn achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau'n rheolaidd o welyau ysbytai. Mae'r Uned Gyflawni'n ymgymryd â gwaith i gynorthwyo sefydliadau i gwblhau archwiliad diwrnod gofal. Mae'r gwaith hwn yn cael ei alinio â gwaith cenedlaethol pellach yn dilyn uwchgynhadledd risg genedlaethol rhwng arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar ad-drefnu'r system er mwyn lleihau risg a gwella canlyniadau. Mae cymorth i weithredu'r polisi cenedlaethol ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn elfen hanfodol o'r gwaith hwn.

Y pum thema a nodwyd yn ddiweddar mewn ffurflenni Rhyddhau i Adfer ac Asesu, a gwaith archwilio diwrnod gofal oedd:

1. Aros am asesiadau iechyd mewnol;
2. Aros am ofal canolraddol ail-alluogi neu yn y cartref;
3. Aros i'r pecyn gofal cartref ailddechrau;
4. Aros am asesiad gofal cymdeithasol;
5. Triniaeth aciwt heb ei chwblhau.

Mae hwn yn fater cylchol gan fod yr heriau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol o safbwynt capasiti'r gweithlu a gwasanaethau yn arwain at oedi ar gyfer rhai pobl sy'n aros i gael eu rhyddhau, ac yn cyfyngu ar yr adnoddau sydd ar gael i bobl sy'n gallu dychwelyd adref o bosibl ar ôl mynychu'r ysbyty ar frys/mewn argyfwng, os ydynt yn derbyn y cymorth priodol.

Amseroedd aros

Mae oedi wrth ryddhau cleifion yn effeithio ar y llif cleifion drwy ysbytai, yn rhoi pwysau ar welyau aciwt mewn ysbytai ac yn gallu cynyddu'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys.

Mae seilwaith y bwrdd iechyd yn ffactor allweddol arall sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal wedi'i gynllunio. Roedd y canllawiau cenedlaethol a ddarparwyd yn ystod y pandemig yn nodi'n glir bwysigrwydd amddiffyn cleifion rhag peryglon trosglwyddo COVID-19, a phwysigrwydd rhannu'r ystad ar sail peryglon trosglwyddo. Roedd y gwaith hwn yn anodd i rai byrddau iechyd sy'n darparu gofal heb ei drefnu, gofal brys a gofal wedi'i gynllunio ar un safle. Mae hyn yn berthnasol iawn i'r cyfyngiadau sy'n cael eu hachosi gan oedi wrth drosglwyddo gofal sy'n lleihau'r llif cleifion o ysbytai, yn enwedig i gartrefi nyrsio neu gartrefi preswyl oherwydd y cyfyngiadau sydd ar waith oherwydd y pandemig, gan leihau'r defnydd hyblyg o welyau a rhoi mwy o bwysau ar yr ystad.

Bydd angen defnyddio ystadau byrddau iechyd yn wahanol er mwyn ymateb i heriau'r rhestrau aros. Mae angen mwy o glinigau un stop lle mae cleifion yn cael eu gweld a'u trin mewn un apwyntiad.

5. Meysydd dan bwysau

Ar 14 Chwefror 2020, roedd 19 o'r 22 awdurdod lleol yn nodi sgoriau oren neu goch yn eu ffurflenni gwirio rheolaidd ar gyfer eu gallu i ddarparu gwasanaethau cymorth cartref, ac roedd sgôr 11 ohonynt yn goch. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn nodi sgôr coch neu oren ar gyfer eu gallu i gynnig gwasanaethau ail-alluogi. Mae'r sgoriau hyn wedi aros yn gyson ers sawl mis, gan amlygu her sylweddol i'r broses o ryddhau cleifion yn brydlon a'r llif cleifion o'r ysbyty i'r cartref.

Nid yw nifer y ceisiadau i awdurdodau lleol am ofal cartref ac ail-alluogi wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y sefyllfa'n dirywio o safbwynt gallu'r awdurdodau lleol i ymateb i'r ceisiadau hyn, gan awgrymu nad yw'r galw yn cael ei fodloni.

Mae awdurdodau lleol yn rhoi ymateb mwy cymysg i'r cwestiwn am eu gallu i ddarparu gofal preswyl i oedolion. Mae'r sefyllfa hon wedi bod yn fwy cyfnewidiol a lleol ei natur, oherwydd ffactor ychwanegol cyfyngiadau ar dderbyn cleifion i'r ysbyty oherwydd achosion o COVID-19. Mae hyn yn berthnasol i ryddhau cleifion o'r ysbyty i fynd i gartref gofal yn unol â'r asesiad o'u hanghenion. Mewn achosion eraill, mae'r gallu i ddarparu gofal yn effeithio ar gynlluniau i ryddhau cleifion os oes cynllun ar waith i ddefnyddio cartrefi gofal fel gwelyau gofal llai dwys cam-i-lawr a/neu y cytunwyd i wneud hynny er mwyn atal achosion o oedi wrth ryddhau cleifion oherwydd diffyg darpariaeth ail-alluogi/gwasanaethau cymorth cartref. Canfu ymchwil a gomisiynwyd gennym yn 2019 fod 6.4% o staff ar amcangyfrif mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig i oedolion yng Nghymru yn wladolion yr UE ac nid o'r DU. Fel yng ngweddill y DU, mae'r sector yng Nghymru wedi profi heriau cronig wrth recriwtio a chadw gweithwyr. Mae rhoi terfyn ar y rhyddid i symud a'r pandemig ond wedi gwaethygu'r sefyllfa ac mae'n gysylltiedig hefyd â chyfraddau tâl, telerau ac amodau o'u cymharu â'r rheini yn y sectorau

iechyd, lletygarwch a manwerthu. Mae hyn yn ychwanegol at y pwysau na welwyd ei debyg o'r blaen ar staff gofal cymdeithasol drwy gydol y pandemig. Mae cyflogwyr ac awdurdodau lleol yn adrodd bod staff yn dweud eu bod yn teimlo wedi'u llethu ac wedi ymlâdd.

6. Amrywiaeth mewn ymarfer ledled Cymru

Mae'r dull D2RA yn ymwneud â rhyddhau cleifion yn effeithiol ac yn amserol. Mae Uned Gyflawni'r GIG wedi bod yn gweithio ar lefel genedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf i helpu i roi'r dull hwn ar waith. Fodd bynnag, mae yna bwysau sylweddol ar y system gofal cymdeithasol ar hyn o bryd sy'n effeithio ar brosesau rhyddhau cleifion.

Mae'r dull D2RA a'r broses ddiwygiedig o gasglu data wedi helpu i newid y sgwrs o naratifau di-fudd a gafwyd yn y gorffennol er mwyn canolbwyntio ar bartneriaethau cadarn ac integredig ac atebion ar y cyd. Fodd bynnag, mae'r broses o roi D2RA ar waith yn amrywio ledled Cymru.

Mae Uned Gyflawni'r GIG yn arwain gwaith i gefnogi a monitro'r broses o roi D2RA ar waith. Mae wedi cyd-gynhyrchu 5 Mesur Allweddol ar gyfer cyflwyno D2RA gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn ychwanegu gwerth at waith cynllunio gweithredol a strategol yn ogystal â darparu dull i fonitro gweithredu. Rhestrir y Mesurau Allweddol yn y tabl isod:

Mesur	Canlyniad a fwriadwyd
Nifer y bobl a drosglwyddwyd i bob Llwybr D2RA	Cynnydd
Canran y trosglwyddiadau a ddigwyddodd o fewn 48 awr i wneud y penderfyniad (eu bod yn barod i gael eu trosglwyddo o'r ysbyty i'r llwybr hwn ar gyfer adferiad â chymorth ac asesiad)	100%
Canran y bobl a drosglwyddwyd i Lwybr D2RA gyda chynllun adfer wedi'i gyd-gynhyrchu ar waith	100%
Canran y bobl a drosglwyddwyd o'r Llwybr D2RA i'w preswylfa arferol	Cynnydd
Canran y bobl a dderbyniwyd yn ôl i'r ysbyty o fewn 28 diwrnod	Gostyngiad (i tua 5%)

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Uned Gyflawni'r GIG wedi amlygu'r pwyntiau canlynol:

- Nid yw rhanbarthau yng Nghymru yn "gwybod eu niferoedd" – mae llawer o ardaloedd wedi methu cyflwyno data ar gyfer llwybrau a/neu fesurau llawn;
- Nid yw ardaloedd yng Nghymru yn gwybod beth yw'r canlyniadau ar gyfer cleifion – bu heriau penodol i geisio deall cyfraddau aildderbyn cleifion a chanran y bobl sy'n dychwelyd adref;
- Mae casglu data yn broses â llaw i raddau helaeth sy'n dibynnu ar aelodau unigol o staff yn chwilio am ddata a'i goladu, yn ogystal â chyflawni eu swyddi parhaol eu hunain.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nodwyd gwelliant clir yn gyffredinol yn y gallu i gasglu a dadansoddi data a'r broses o weithredu D2RA; mae rhai ardaloedd yn neilltuo adnoddau i wella'r broses o gasglu data a dibynadwyedd data, sydd wedi cael effaith gadarnhaol amlwg ac uniongyrchol.

Yn gyffredinol, mae nifer y bobl ledled Cymru sy'n cael eu cefnogi gan D2RA bob mis yn cynyddu'n raddol. Ym mis Ionawr 2021, roedd y ffigur hwn tua 1800 o bobl, cyn cyrraedd uchafbwynt o bron i 2700 dros yr haf, ac yna'n gostwng yn raddol i dros 2000 ar ddechrau'r gaeaf. Nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol gan nad yw llawer o ardaloedd yn gallu cofnodi cleifion sy'n trosglwyddo i lwybr 0 (cleifion sy'n mynd adref ac sydd angen cymorth gan y trydydd sector yn unig) er enghraifft.

Er bod y mesurau'n awgrymu bod ein defnydd o lwybr 3 (gofal canolraddol seiliedig ar welyau) yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn rhesymol, mae ein llwybrau 1 a 2 sy'n symud cleifion adref yn tueddu i gael eu defnyddio'n amlach, gan awgrymu bod y newid diwylliannol tuag at y "gartref yn gyntaf" yn ennill tir yn araf.

Hefyd, gwelir cynnydd cyffredinol yng nghanran y bobl sy'n cael eu trosglwyddo o fewn 48 awr, gyda'r cyfartaledd yn dechrau ar tua 12%, yn cyrraedd uchafbwynt o 30% yn ystod yr haf ac yn sefydlogi ar tua 25%.

Mae canran y bobl sy'n cael eu trosglwyddo gyda chynllun adfer wedi'i gyd-gynhyrchu wedi gwella'n gyffredinol, gan godi o gyfartaledd o 3% i gyfartaledd o ychydig dros 20%. Bu gwelliant cyson o 0% i 100% mewn rhai ardaloedd, sydd wedi bod yn galonogol iawn. Yn gyffredinol, mae pobl sy'n trosglwyddo i lwybr 3 yn llai tebygol o fod â chynllun adfer wedi'i gyd-gynhyrchu, sy'n peri pryder o gofio mai proses gadarn o drosglwyddo nodau a chanlyniadau yw un o'r rhagfynegyddion mwyaf o bobl yn dychwelyd yn ddiogel ac yn hyderus i'w cartref eu hunain.

Canran y bobl sy'n cael eu trosglwyddo o D2RA i'w preswylfa arferol yw un o'n mesuriadau gorau, ac roedd cofnodion cynnar ond yn gallu nodi bod tua 38% o bobl ar gyfartaledd wedi trosglwyddo i'w cartrefi ledled y 5 rhanbarth o Gymru sydd wedi gallu casglu'r data hwn, o'i gymharu â thros 60% erbyn hyn. Mae'n debygol bod y ffigur hwn yn is na'r gweithgarwch gwirioneddol ar gyfer llwybr 0-2.

Yn gyffredinol, nid yw cyfraddau aildderbyn cleifion yn ddibynadwy ledled Cymru oherwydd anawsterau'n casglu'r data hwn.

Enghreifftiau o ymarfer gorau yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU

Rydym wedi cyhoeddi gofynion gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty i bartneriaid ieuchyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Mae'r canllawiau SAFER yn darparu arferion da i hyrwyddo rhyddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol, gwella'r llif cleifion a sicrhau nad yw cleifion yn aros yn ddiangen.

MAE SAFER yn cynnwys y pum egwyddor ganlynol:

- Adolygiad uwch: bydd pob claf yn cael adolygiad uwch cyn hanner dydd.

- Bydd pob claf, ynghyd â'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y gwaith o bennu Dyddiad Rhyddhau Disgwyliedig. Bydd cleifion yn dechrau cael eu trosglwyddo o'r unedau asesu i'r wardiau cleifion mewnol cyn gynted â phosib.
- Rhyddhau'n gynnar: Bydd mwy na 33% o gleifion yn cael eu rhyddhau o wardiau cleifion mewnol cyn hanner dydd ar eu diwrnod rhyddhau.
- Adolygiad: Cynhelir adolygiad systematig gan dîm amlddisgyblaethol, yn cynnwys cleifion a'u teuluoedd yn achos cleifion sy'n aros am gyfnod estynedig (>6 diwrnod), gan gadw 'gartref yn gyntaf' fel nod clir.

Profwyd bod cysyniad SAFER yn fanteisiol i unigolion a'r system ysbytai ehangach. Pan gaiff y canllawiau hyn eu gweithredu'n effeithiol gan dimau a arweinir yn dda, a'u cyfleu'n glir i'r staff gan eu galluogi i ddeall pob elfen yn llawn, mae ysbytai wedi gweld manteision gwirioneddol o ran canlyniadau cleifion a boddhad staff. Mae llai o dorfeydd mewn ysbytai, mae llai o dagfeydd mewn adrannau brys. Mae cyfraddau marwolaeth yn gostwng. Ceir llai o niwed ac mae staff dan lai o bwysau.

Ariannu ac Integreiddio Rhanbarthol

Mae gwasanaethau integredig o'r ysbyty i'r cartref wedi'u cefnogi drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Mae'r prosiectau hyn wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod yr ymateb i COVID-19, gan helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gyflymach er mwyn rhyddhau capasiti pwysig yn ogystal ag osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty drwy alluogi gofal yn nes at adref.

Yn 2021/22, neilltuwyd £6 miliwn o'r Gronfa Trawsnewid i ddatblygu modelau trosglwyddo o'r ysbyty i'r cartref ar lefel ranbarthol er mwyn helpu i sefydlu model gweithio cenedlaethol. Mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o raddio Llwybrau D2RA mewn ffordd gynaliadwy gyda'r nod o sicrhau dull rhanbarthol o gyflwyno'r model D2RA y cytunwyd arno.

Diolch i'r cymorth ychwanegol hwn, bu modd darparu gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos i ganfod pa gymorth cymunedol y gellir ei ddarparu i helpu i ryddhau cleifion yn ddiogel o'r ysbyty. Drwy ddefnyddio sgysrsiau "Beth sy'n Bwysig", mae cleifion yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth pwrpasol sy'n diwallu eu hanghenion llesiant, yn hyrwyddo byw'n annibynnol, ac yn helpu i ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol gan leihau'r perygl y byddant yn dychwelyd i'r ysbyty.

Bydd y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig bresennol yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2022. Er mwyn hwyluso'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well a chefnogi'r dull system gyfan, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cronfa Integreiddio Rhanbarthol bum mlynedd newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2022 gyda buddsoddiad blynyddol gwerth £144 miliwn.

Bydd y gronfa'n datblygu llwyddiant y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, yn dysgu o brofiadau hyd yma, ac yn parhau i sbarduno'r broses o integreiddio a thrawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'r holl weithgarwch a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ddarparu cymorth uniongyrchol i ddatblygu a darparu modelau cenedlaethol o ofal integredig gan gynnwys gwasanaethau gartref o'r ysbyty a gwasanaethau gofal ataliol a chymhleth yn y

gymuned. Bydd gan y gronfa ffocws cryf ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Bydd y gronfa newydd hon yn parhau i gael ei gweinyddu drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol er mwyn sicrhau dull gweithredu integredig ar draws y sectorau.

Er mwyn rhannu arferion gorau ledled Cymru, sefydlwyd Cymuned Ymarfer Gartref o'r Ysbyty. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod yn 2020 a 2021 i amlygu enghreifftiau o wasanaethau integredig, hyrwyddo dysgu ar y cyd, datblygu rhwydweithiau a datrys problemau gan arwain at gyhoeddi 'Rhoi Gartref yn Gyntaf ar Waith - Cymuned Ymarfer o'r Ysbyty i'r Cartref: enghreifftiau allweddol o ddysgu ac ymarfer' ym mis Mai 2021. Mae'r ddogfen yn cynnwys astudiaethau achos o bob rhan o'r DU yn ogystal â phob rhanbarth yng Nghymru. [Rhoi Gartref yn Gyntaf ar Waith \(llyw.cymru\)](#)

Bydd y Gymuned Ymarfer yn ail-gynnull ddiwedd mis Mawrth 2022 i brofi'r adnodd e-ddysgu Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA), dewis pynciau yn y dyfodol ar gyfer dysgu ar y cyd, datblygu rhagor o ddeunyddiau a darparu amgylchedd dysgu a rhannu parhaus ledled y rhanbarthau ac ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r ethos 'Gartref yn Gyntaf.' Bydd y gweithgarwch hwn yn parhau drwy gydol oes y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd.

7. Y cymorth sydd ei angen ar bobl a gwasanaethau

Cymorth i ofalwyr di-dâl

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae sawl awdurdod lleol wedi wynebu pwysau difrifol ar eu gweithlu gofal cymdeithasol ac wedi gofyn yn gyhoeddus am gymorth gan deuluoedd a ffrindiau i gefnogi unigolion, gan gynnwys adeg rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Os yw hyn yn cynnwys diwallu anghenion cymwys sydd wedi'u hasesu, gall taliadau uniongyrchol gefnogi a galluogi'r gofal hwnnw, neu gellid eu defnyddio i brynu offer neu eitemau eraill i'w helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn brydlon. Yn yr un modd, er mwyn cynorthwyo gofalwyr di-dâl fel rhan o'r broses hon, mae Llywodraeth Cymru wedi newid ffocws cyllid blynyddol gofalwyr gwerth £1 miliwn i fyrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalwyr trydydd sector. O 2022-23 ymlaen, bydd prosiectau sy'n derbyn yr arian hwn yn pontio, neu'n datblygu prosiectau newydd sy'n canolbwyntio ar gymorth i ofalwyr di-dâl sy'n helpu i ryddhau pobl y maent yn gofalu amdanynt o'r ysbyty.

Mae gofalwyr di-dâl yn grŵp blaenoriaeth hefyd yn y Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol newydd sy'n dechrau ym mis Ebrill. Mae'r canllawiau ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol newydd i ofalwyr di-dâl wedi'u diwygio er mwyn dysgu gwersi o'r Gronfa Gofal Integredig. Felly, dylai dyraniad cyllid y Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer prosiectau gofalwyr ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar wasanaethau i ofalwyr fel y prif fuddiolwyr.

Addasiadau tai

Er nad yw addasiadau tai yn un o brif achosion oedi wrth ryddhau cleifion, mae galw cynyddol am addasiadau i wneud cartrefi'n amgylchedd diogel ar gyfer cynnal annibyniaeth unigolion a darparu gwasanaethau gofal ac ail-alluogi.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn buddsoddi tua £60 miliwn bob blwyddyn mewn addasiadau i dros 30,000 o gartrefi. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn bwysau sylfaenol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £17.66 miliwn mewn grantiau i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio, a fydd yn codi i £19.5 miliwn yn 2022-23. Defnyddir y rhan fwyaf o'r cyllid sy'n weddill ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a ariennir gan awdurdodau lleol o'u cronfa cyfalaf cyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sydd angen ei wneud ar unwaith i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn waith ar raddfa fach, ond mae angen ei wneud yn gyflym. Sefydlwyd y Rhaglen Addasiadau Brys i ddiwallu'r angen hwn, ac mae'r rhaglen yn rhan o gylch gwaith asiantaethau Gofal a Thrwsio.

Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn derbyn eu cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. Fe gawsant refeniw gwerth £4.3 miliwn yn 2021-22 a fydd yn codi i £4.8 miliwn yn 2022-23. Hefyd, maent yn derbyn cyllid cyfalaf i dalu am gostau addasiadau cyflym, sef £1.6 miliwn yn 2021-22, a fydd yn codi i £3 miliwn yn 2022-23.

Mae'r cyllid refeniw ychwanegol yn galluogi asiantaethau Gofal a Thrwsio i ymdrin ag achosion mwy cymhleth o ryddhau cleifion h.y. achosion lle mae angen gwneud gwaith paratoi cyn y gellir gosod addasiadau'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, mynd i'r afael â materion brys yn ymwneud â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, neu fynd i'r afael â materion fel anhwylder cronni sy'n creu peryglon sylweddol i iechyd a diogelwch. Mae'r cyllid cyfalaf ychwanegol yn ymateb i anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, lle mae addasiadau cynnar, ar raddfa fach (sy'n costio llai na £500 fel arfer) yn gallu cael effaith ataliol hirdymor.

Hefyd, rydym wedi cynyddu grant Galluogi awdurdodau lleol o £4 miliwn yn 2020-21 i £6 miliwn yn 2022-23 fel nad oes angen i neb wneud cyfraniad ariannol tuag at y math mwyaf cyffredin o addasiadau, megis lifftiau grisiau ac ystafelloedd gwlyb i lawr y grisiau. Mae hyn yn dileu un o achosion oedi gweinyddol gyda'r nod o wella amseroedd cyflawni.

8. Camau i fynd i'r afael â'r problemau

Gweithio mewn partneriaeth a dulliau gweithredu newydd

Rydym yn cefnogi gwaith partneriaeth effeithiol a phrosesau integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn helpu i drosglwyddo gofal yn brydlon a sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer unigolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol i helpu i wella'r llif cleifion a'r broses o ryddhau cleifion, gan ganolbwyntio ar y dull D2RA. Rydym wedi amlinellu'r dull hwn mewn canllawiau, ac rydym yn gweithio gydag Uned Gyflawni'r GIG i helpu i weithredu'r dull D2RA, yn unol â chwe nod gofal mewn argyfwng.

Rydym wedi sicrhau bod cynlluniau'r gaeaf ar gyfer 2021-22 yn cynnwys pwyslais ar weithio mewn partneriaeth ac integreiddio, gan gynnwys y dull D2RA.

Mae'r Gymuned Ymarfer o'r Ysbyty i'r Cartref wedi cefnogi dysgu ar y cyd ac arferion gorau mewn perthynas â'r egwyddor Gartref yn Gyntaf.

Cyllid

Rydym wedi defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid i gefnogi dulliau arloesol o wella'r broses o ryddhau cleifion a'r llif cleifion. Er enghraifft, yn 2021/22, neilltuwyd £6 miliwn o'r Gronfa Trawsnewid i ddatblygu modelau trosglwyddo o'r ysbyty i'r cartref ar lefel ranbarthol er mwyn helpu i sefydlu model gweithio cenedlaethol.

Mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o raddio Llwybrau D2RA yn gynaliadwy gyda'r nod o sicrhau dull rhanbarthol o gyflwyno'r model D2RA y cytunwyd arno. O fis Ebrill ymlaen, bydd y cronfeydd hyn yn cael eu disodli gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a buddsoddiad blynyddol o £144 miliwn.

Bydd £25 miliwn o gyllid cenedlaethol cylchol ychwanegol yn helpu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni'r 'chwe nod' ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys nod pump: 'gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty', a nod chwech: 'dull gartref yn gyntaf a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty'. O'r Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae nodau pump a chwech yn cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol ar ryddhau cleifion o ysbytai, ac yn ceisio eu cyflawni.

Yn ogystal â'r cyllid hwn, buddsoddiwyd £2.26 miliwn mewn cludiant i gleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys mewn ymdrech i leddfu'r pwysau ar wasanaethau ambiwlans a sicrhau bod cleifion yn gallu parhau i dderbyn gofal wedi'i gynllunio. Buddsoddiwyd £48 miliwn gennym ym mis Medi 2021 i gefnogi adferiad gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Dyrannwyd £9.8 miliwn arall i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ym mis Hydref 2021 er mwyn helpu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun y gaeaf, ochr yn ochr â £32.92 miliwn arall ar gyfer pwysau gofal cymdeithasol. Mae'r gronfa gyfalaf newydd gwerth £50 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol yn cynnwys datblygu 50 o ganolfannau cymunedol lleol a chryfhau trefniadau i helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi'r ystad gofal preswyl.

Rydym wedi rhoi dros £500,000 yn 2021/22 i Gofal a Thrwsio Cymru i ddarparu'r gwasanaeth 'Ysbyty i Gartref Iachach'. Mae hyn yn hwyluso proses fwy diogel a chyflym o ryddhau cleifion hŷn sy'n agored i niwed a allai elwa o addasiadau i'r cartref. Mae'r Gweinidogion yn cydnabod bod y Pwyllgor wedi codi'r mater o ddarpariaeth barhaus y gwasanaeth hwn yn 2022/23. Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau â byrddau iechyd ar y mater a bydd ymateb yn cael ei roi. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn buddsoddi tua £60 miliwn bob blwyddyn mewn addasiadau i dros 30,000 o gartrefi. Gall hyn helpu i ryddhau cleifion yn brydlon a chefnogi annibyniaeth pobl pan fyddant gartref. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £17.66 miliwn mewn grantiau i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio, a fydd yn codi i £19.5 miliwn yn 2022-23.

Defnyddir y rhan fwyaf o'r cyllid sy'n weddill ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a ariennir gan awdurdodau lleol o'u cronfa gyfalaf gyffredinol.

Y Pwyllgor Gweithredu ar Ofal

Dros gyfnod y gaeaf, cadeiriodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Pwyllgor Gweithredu ar Ofal. Mae'r grŵp hwn wedi canolbwyntio ar nodi camau gweithredu i leddfu'r pwysau ar ein gwasanaethau, ac fe'i cefnogir hefyd gan gynrychiolaeth o'r GIG, Awdurdodau Lleol, CLILC, Cydffederasiwn y GIG, ADSSC, Fforwm Gofal Cymru a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol.

Mae'r pwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd i nodi problemau uniongyrchol a chytuno ar atebion i atal llif y system iechyd a gofal cymdeithasol rhag dirywio ymhellach a mynd i'r afael â phryderon megis amseroedd aros a rhyddhau cleifion. Cyflawnodd y grŵp swyddogaeth hanfodol dros gyfnod y gaeaf wrth i ni fynd i'r afael â'r materion ar y cyd a oedd yn deillio o bwysau arferol y gaeaf a materion yn deillio o COVID-19. Mae'r camau gweithredu a gychwynnwyd gan y grŵp yn parhau, e.e. sefydlu set ddata iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Ailosod y System

Arweiniodd Llywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni'r GIG Uwchgyrhadedd Risg Genedlaethol ganol mis Chwefror, gan ystyried y materion allweddol yn ymwneud â rhyddhau cleifion a'r llif cleifion. O ganlyniad, cytunwyd ar "ailosod" y system ledled y sector iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn cynorthwyo llif cleifion drwy'r system gyfan a lleihau nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau cleifion. Bydd hyn yn digwydd rhwng 2 Mawrth a 16 Mawrth.

Bydd hyn yn amlygu pwysigrwydd dulliau gweithredu Gartref yn Gyntaf a D2RA a'r angen i gryfhau gwasanaethau cymunedol er mwyn mynd â phobl i'w hardal leol yn rhagweithiol a'u cadw'n ddiogel. Bydd dysgu o'r broses ailosod yn helpu i lywio ymyriadau yn y dyfodol sy'n cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty a gwella'r llif cleifion, drwy'r rhaglen chwe nod.

Gweithlu gofal iechyd

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu, bydd buddsoddiad gwerth £262 miliwn ar gael y flwyddyn nesaf i gefnogi rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru. Bydd hyn yn gynydd o 15% o'i gymharu â 2021-22 a bydd yn darparu'r nifer fwyaf o gyfleoedd hyfforddi gofal iechyd yng Nghymru.

Byddwn yn cynnal ac yn cynyddu buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd, gan ddarparu 12,000 yn fwy o staff clinigol erbyn 2024-25.

Gweithlu gofal cymdeithasol

Mae gwella'r broses o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac rydym wedi ymrwymo i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal.

Dechreuodd ymgyrch recriwtio genedlaethol yn yr haf ac mae wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Weinidogion Cymru. Ym mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021, bu cynnydd o tua 180% o bobl a oedd yn edrych ar borth swyddi cenedlaethol Gofalwn.Cymru.

Mae ymgyrch Gofalwn.Cymru, a gynhelir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cynnwys y gweithgaredd recriwtio hwn, ac mae wedi darparu hyfforddiant rhagarweiniol ar-lein 3 diwrnod i annog pobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Hyfforddwyd pum grŵp ym mis Ionawr a mis Chwefror, gyda 24 o bobl yn cwblhau'r cwrs. Bwriedir cynnal 12 grŵp arall hyd at ddiwedd mis Mehefin, a bydd rhai ohonynt yn canolbwyntio ar bobl ifanc.

Rydym wedi cyhoeddi cynllun Taliad Ychwanegol sy'n cyd-fynd â'r Cyflog Byw Gwirioneddol (10 Chwefror). Bydd hyn yn gwneud taliad o £1498 i weithwyr cymdeithasol a fydd yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol, a'u rheolwyr. Bwriedir i'r taliad ychwanegol hwn, sy'n debygol o gael ei wneud ym mis Mehefin, ddangos ymrwymiad Gweinidogion Cymru i wella telerau ac amodau swyddi gofal cymdeithasol a gwella cyfleoedd i bobl gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Yn ogystal â chyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol o fis Ebrill eleni, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gydag undebau llafur a chyflogwyr drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sy'n ystyried sut i wella amodau gwaith yn y sector. Yn ogystal â thelerau ac amodau cyflogaeth eraill, mae'r Fforwm yn ystyried safbwyntiau gweithwyr cyflogedig, a chyflogau a dilyniant ehangach yn y sector gofal cymdeithasol.

Rydym yn cymryd camau i broffesiynoli'r sector a gwella cyfleoedd i bobl gamu ymlaen yn eu gyrfa, mewn ymdrech i helpu i recriwtio a chadw staff. Yn 2020 a 2021, derbyniodd staff gofal cymdeithasol daliadau o £500 a £735 i gydnabod eu hymrwymiad diflino yn ystod pandemig COVID-19.

Adsefydlu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [fframwaith adsefydlu cenedlaethol](#) a chanllawiau seiliedig ar boblogaeth ym mis Mai 2020 i helpu gwasanaethau i ddeall y galw cynyddol am wasanaethau adsefydlu, ail-alluogi ac adfer drwy'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector yn defnyddio'r Fframwaith i gynllunio gwasanaethau adsefydlu er mwyn ymateb i anghenion eu poblogaethau.

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd £5 miliwn ychwanegol ar gael i fyrddau iechyd ddatblygu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i ddiwallu anghenion pobl â COVID hir a phobl sydd wedi'u heffeithio yn anuniongyrchol gan y pandemig, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu oedi i'w gofal wedi'i gynllunio.

Ail-gydbwyso gofal a chymorth

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu rhaglen waith mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth, a fydd yn cefnogi gwelliannau hirdymor mewn comisiynu a chydweithio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn bwysig er mwyn gwella arferion rhyddhau cleifion a'r llif cleifion.

Yn unol â'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i gyflwyno Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chymorth. Bydd y Fframwaith yn gosod

safonau ar gyfer arferion comisiynu, yn lleihau cymhlethdod ac yn ail-gydbwysu comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau. Bydd yr hyn sy'n bwysig i bobl wrth wraidd y Fframwaith.

Hefyd, byddwn yn cryfhau dulliau cydweithio drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol, mewn perthynas â:

- llywodraethu a chraffu;
- cynllunio a pherfformiad;
- ymgysylltu a llais;
- darparu gwasanaethau integredig;
- ail-gydbwysu'r farchnad gofal cymdeithasol.